

Rhagymadrodd

Dyma'r eildro i *Peredur* gael ei golygu mewn chwarter canrif. Er hynny, nid yr un driniaeth a gaiff y testun yma. Cynnyrch y traddodiad golygu amlweddog Cymreig yr olrheinir elfennau ohono yn yr adran gyntaf isod yw golygiad Goetinck (1976). Un llawysgrif-ganolog yw hwn, ymgais i gyflwyno'r testun fel y'i ceir yn Llyfr Gwyn Rhydderch heb newid ond y mymryn lleiaf arno, a chan ganiatáu i'r darlennydd adlunio'r gwreiddiol pan newidir. Yn hytrach na chuddio'r problemau sydd ynglŷn â deall rhyddiaith ganoloesol, fe'u cyflwynir i'r darlennydd yn rhan hanfodol o'r testun er mwyn ceisio ei dywys i fyfyrion am y modd y darllenid y gwaith yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Anathema i'r ysgolhaig o Sais fyddai ynganu gweithiau Chaucer fel pe baent yn Saesneg Diweddar ac y mae'n hen bryd i ninnau roi sylw dyledus i ynganu Cymraeg y cyfnod canol: chwedl am anturiaethau /pe'redyr/ – nid /pe'redir/ na /pe'redir/ – yw hon. Yn yr adran ar iaith ac ieithwedd y testun, felly, fe geisir gosod seiliau ar gyfer darllen y testun o safbwynt y seineg a'r ffonoleg a gyfleir gan yr ysgrifydd gan sylwi'n arbennig ar y modd y rhannai'r naratif yn unedau 'brawddegol'. O safbwynt hanes yr iaith, y mae'r chwedl yn cynnig nifer o awgrymiadau gwerthfawr am ddatblygiadau yn llafar yr ysgrifydd.

Ni thylbiaf mai profiad unigryw yw cael bod darllen golygiadau o destunau rhyddiaith yr oesoedd canol yn cael ei atalnodi'n gyson gan ymbalfalu mewn dau fan yn y cefn am nodyn neu lòn ar ambell air; ni waeth pa mor fuddiol yw hynny, y mae'n torri ar y darllen. O'r herwydd, yn hytrach na chyfeirio at nodweddion ieithyddol yn dameidiol wrth iddynt godi – sawl gwaith, weithiau – fe'u carfenir ynghyd yn yr adran ar iaith, ymarferiad sy'n rhoi cyfle i ystyried rhai ohonynt o safbwynt meintiol ac i ddehongli'r rhai pwysig yng nghyd-destun ei gilydd. Cynhwysir hefyd eirfa lawn yn y cefn, mynegai sy'n cynnwys cyfeiriadau at y nodweddion a drafodir yn yr adran ar yr iaith, a mynegair sy'n enghreifftio pob gair yn ei gyd-destun. Esbonnir ambell nodwedd hynod yn gryno a diffinnir geiriau a allai fod yn anghyfarwydd (yn enwedig i'r newyddian) ar y ddalen gyferbyn â'r testun wrth iddynt godi. Y gobaith yw y bydd dod â'r esboniadau hanfodol yn nes at y testun yn rhwyddhau'r ffordd i'r darlennydd gael canolbwyntio ar y chwedl ei hun a darllen y rhyddiaith yn hytrach na'r iaith.

Bu brwdfrydedd ac anogaeth Sioned Davies yn gynhالياeth gyson yn ystod y prosiect hwn. Mae fy niolch yn fawr hefyd i Mick van Rootseler am lunio ffont bwrpasol, i Jerry Hunter am gyfeiriad at Roland Barthes, ac i Mike Jones am ymgymryd â threfnu i'r llyfr gael ei gyhoeddi ar y we.

‘The business of textual criticism is to produce a text as close as possible to the original.’ (Maas 1958: 1)

‘The Classical notion that a critical edition will attempt to reconstruct the author’s original or intended meaning has, to some scholars, become a rather Utopian ideal.’ (Wenzel 1990: 14)

‘As we create still more variations on previous varieties of editing, we take our places in an unending chain, extending back across the centuries and into the foreseeable future, made up of individuals who struggle to solve the enigmas of textual transmission.’ (Tanselle 1995: 28)